

Cofnodion **Cyfarfod Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Hydref 3ydd yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of Penbryn Community Council Meeting held on Tuesday, October 3rd at Penbryn Memorial Hall.*

Yn bresennol/Present

Cynghorwyr/*Councillors* Delfryn Owens, Caerwyn Owen, Gwyn James, Walwyn Jones.

1 Ymddiheuriadau/Apologies

Cynghorwyr/*Councillors* Jonathan Rees, William Anwyl, Huw Davies, Gareth Evans, Melva Phillips, Teifi Davies, Barri Davies.

2 Materion Personol/Personal Matters

Cydymdeimlwn â William Anwyl a'r teulu estynedig ar golli ei dad yn ddiweddar.
We extend our sympathy to William Anwyl and the family having lost his father recently.

3 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 13/9/23

Cynigiwyd gan Caerwyn eu bod yn gywir a'i eilio gan Gwyn.
Proposed by Caerwyn to be correct and seconded by Gwyn.

4 Materion yn codi/Matters arising

- i) Gwefan y Cyngor/*Council Website*
Croesawyd Graham Jones i'n plith er mwyn ein cyngori ynghylch y wefan. Nododd ei fod wedi cynnwys popeth addas iddo dderbyn yn flaenorol ar y wefan. Pwysleisiodd yr angen am osgoi torri rheolau hawlfraint. Y peth cyntaf sydd ei eisiau arno yw testun, sef hanes pentrefi a lluniau. Gall cofnodion ac agenda ddilyn wedyn, ar ffurf PDF noder. Bydd angen ffurflen gysylltu i'r cyhoedd ar y wefan. Y nod yw creu templad er mwyn cychwyn pethau. Bydd tâl ar gyfer creu proforma ynghyd â chadarnhad am daliadau'r gorffennol. Dylid nodi bod tâl o £90 am flwyddyn neu £180 am 2 flynedd ar gyfer cynnal neu `hosting` y wefan.
Graham Jones attended the meeting to advise us regarding the website. He had already included all appropriate previous material on the website. He stressed the need to avoid any copyright infringements. Main requirement is text, pictures and local histories. Minutes and agendas may follow, but in PDF format only. We need a contact form for the public on the website. Initially, we need a template to start. There will be a charge to create proforma, as well as confirmation of previous payments. `Hosting` charges will be £ 90 for a year or £180 for 2 years.
- ii) Cyfrif Banc/*Bank Account*
Er bod y cyfrif eisoes wedi'i agor, yr ydym yn dal i ddisgwyl am y llyfr siec a'r llyfr talu mewn. Bu Caerwyn a'r Clerc lawr yng Nghangen Lloyds yn Aberteifi yn ddiweddar i gyflwyno rhagor o ddogfennau i'r banc. Y gobaith yw na fydd yn hir cyn y'u derbyniwn fydd yn ein galluogi i ddechrau talu ein dyledion.
Even though the account is fully opened, we still haven't received a cheque book nor a paying in book. Caerwyn and the Clerk visited Lloyd's Bank branch in Cardigan recently to submit further documentation. The hope is that we will receive them soon enabling us to start paying outstanding payments.

- iii) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol/*Independent Remuneration Panel for Wales*
Cadarnhawyd bod y ffurflen er mwyn cofnodi nad oes yr un aelod wedi derbyn unrhyw fath o gydnabyddiaeth ariannol wedi'i hanfon.
Confirmation that the form to notify the authorities that no member has received any financial recognition has been sent to the appropriate body.
- iv) Bois y Mowo a'r llwybr yn Sarnau/*Bois y Mowo and the footpath in Sarnau*
Cadarnhaodd Delfyn fod cloddiau'r llwybr wedi'u torri gan Bois y Mowo a'u bod wedi'u talu.
Delfryn confirmed that Bois y Mowo had completed the work of cutting the hedges along the footpath opposite the Hall in Sarnau and duly paid for their work.

5 Cyllid/Finance

- i) Cyngor Sir **Ceredigion County Council**
Derbyniwyd ymholiad gan y Cyngor Sir yn ddiweddar ynglyn â'r taliadau sy'n ddyledus am lanhau tai bach Tre-saith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Anfonodd y Clerc eglurhad yn esbonio paham na fedrwn dalu ar hyn o bryd, er bod y cyfrif wedi'i agor.
An inquiry was received from Ceredigion County Council recently regarding payments due for the maintenance of public toilets in Tre-saith over a 2 year period. The Clerk sent correspondence explaining why we aren't in a position to pay at the moment, even though the account has been opened.
- ii) Trefnu Cyfarfod/*Arrange Meeting*
Wedi i lyfrau'r Banc gyrraedd, ategwyd yr angen am drefnu cyfarfod brys er mwyn dechrau talu yr hyn sy'n ddyledus i gyrff ac unigolion. Derbyniwyd yn unfrydol y dylai'r cyn-Glerc fod yn bresennol er mwyn hwyluso'r taliadau.
As soon as the relevant books arrive from the bank, the need to arrange an emergency meeting was confirmed in order to start paying outstanding payments. It was agreed that the former Clerk be present in order to facilitate payments.

6 Cynllunio/Planning

DIM CEISIADAU/*NO APPLICATIONS*

7 Gohebiaeth/Correspondence

DIM GOHEBIAETH/*NO CORRESPONDENCE*

8 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- i) Bws **Bwcabws Bus**
Mynegodd Gwyn ei fod wedi derbyn pryderon gan bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth hwn yn rheolaidd. Daeth yn amlwg pa mor allweddol yw'r gwasanaeth hwn i nifer fawr o'r plwyfolion yn eu bywydau beunyddiol. Cytunwyd y dylid gohebu ag Elin Jones A.SC er mwyn mynegi ein cefnogaeth i barhad gwasanaeth o'r fath.
Gwyn stated that he had received concerns regarding the future of this service. It became evident how much of a lifeline this service has become for many people. Unanimously it was agreed to correspond with Elin Jones M.S to voice our support for this vital link.

ii) Twll Archwilio/*Manhole*

Tynnwyd sylw Gwyn tuag at gaead ansefydlog a swmllyd twll archwilio ym mhentref Sarnau ar hyd yr A487. Wedi bod draw i gael golwg ar y caead, dywedodd y byddai'n cysylltu â'r Asiantaeth Priffyrdd ar ran y Cyngor Cymuned.

Gwyn mentioned that he had received a query regarding safety of a manhole cover on the A487 at Sarnau. Having inspected the manhole cover, Gwyn agreed to correspond with the Highways Agency on our behalf.

iii) Arwyddion 20 mya/20mph signage

Tynnwyd sylw'r aelodau at y ffaith nad yw gyrwyr sy'n troi am Ysgol T Llew Jones o gyfeiriad Sarnau o reidrwydd yn medru gweld yr arwydd cyflymder ar y gyffordd, oherwydd ongl ac uchder yr arwydd. Nid oes arwydd arall wedyn hyd nes iddynt fynd heibio'r ysgol. Cytunwyd y dylid cysylltu â Clic er mwyn tynnu eu sylw at y sefyllfa hon.

Members were informed that drivers turning towards Ysgol T Llew Jones from the direction of Sarnau had some difficulty in seeing the speed restriction sign on the junction. The sign is slightly higher and at an angle not visible to everybody, with no further signage until beyond the school. It was agreed to contact Clic to draw their attention to this query.

9 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Dachwedd y 7ed am 7.30 y.h.

Next meeting will be held on November 7th at 7.30 p.m.